Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Gwir Anrh yr Arglwydd Elis-Thomas CG AC
Llywydd

Phone/Ffôn 029 2089 8911

Mr Alun Thomas
Ysgrifennydd Awdurdod S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

18 Gorffennaf 2007

Annwyl Mr Thomas,

Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Ysgrifennaf y llythyr hwn fel Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad i roi ein sylwadau ar eich cynigion i lansio sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus Gymraeg newydd i blant. Rydym yn cydnabod gwerth gwasanaeth o'r fath ac yn rhannu eich awydd i'w ddatblygu. Fodd bynnag, ein prif bryder yw goblygiadau'r sianel newydd i blant o ran darlledu busnes y Cynulliad. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r pŵer i Gomisiwn y Cynulliad gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o Lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a rhan hanfodol o hyn yw hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad. Credwn fod llawer i'w wneud cyn cyflawni hyn yn effeithiol, ac yn sicr nid ydym am weld llai o gyfleoedd i bobl Cymru weld gwaith y Cynulliad, yn arbennig yn ystod yr adeg bwysig hon o ran datblygiad rôl a phwerau'r Cynulliad.

Ceir tri dewis yn eich papur ymgynghori ar ddarlledu busnes y Cynulliad yn y dyfodol:

- parhau i ddarlledu trafodion y Cynulliad ond gan gynnwys rhaglenni plant yn ystod yr adegau eraill;
- rhoi'r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad;
- parhau i ddarlledu trafodion y Cynulliad a darparu gwasanaeth i blant hefyd, a hynny drwy ddefnyddio gofod ychwanegol a newydd.

Nid yw'r dewisiadau hyn wedi'n hargyhoeddi mai dyma'r ffordd orau ymlaen. Byddai'r dewis cyntaf yn ymddangos yn rhyfedd i wylwyr ac mae'n anodd credu y byddai hyn yn ateb y diben, sef creu gwasanaeth i blant ond trwy barhau i ddarlledu trafodion y Cynulliad. Byddai'r ail ddewis yn annerbyniol i ni, a byddem yn dadlau nad yw er budd pobi Cymru. Mae'r papur ei hun yn awgrymu nad yw'r trydydd dewis yn bosibl ar hyn o bryd.

Felly, hoffem gyfarfod yn ffurfiol a chi a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn edrych yn fanwl i'r posibilrwydd o ddewisiadau eraill. Hoffem i'r trafodaethau hyn edrych yn fanwl i ddewisiadau technegol a golygyddol. Yn y tymor hwy, mae'n bosibl mai'r cyfrwng mwyaf priodol o ddarlledu trafodion y Cynulliad fyddai gwasanaeth gwell sy'n seiliedig ar y we. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd nesaf, credwn y byddai gwasanaeth sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar y we yn rhy gyfyngedig o ran hygyrchedd ac rydym yn awyddus i gadw gwasanaeth teledu gyda gwasanaeth ategol sy'n seiliedig ar y we. Efallai bod hyn yn golygu bod angen i ni gynllunio ar gyfer proses raddol o newid dros y blynyddoedd nesaf.

Mae hwn yn amlwg yn fater o bwys strategol mawr i S4C a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Gyda'n gilydd a chyda brwdfrydedd, gobeithio y gallwn ddod o hyd i ateb a fydd o fudd i'r ddau ohonom.

Yn gywir,

Dafydd Elis-Thomas

E-bost: dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk